

Pennod 3: Yr ymgynghoriad

CYFLWYNIAD

- 3.1 Yn y Bennod flaenorol, disgrifiwyd cefndir y prosiect codeiddio, a arweiniodd at gyhoeddi'r Papur Ymgynghori ym mis Tachwedd 2017. Yn y Bennod hon, amlinellwn yn fras yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gennym ar ôl ei gyhoeddi.

DOSBARTHU'R PAPUR YMGYNGHORI

- 3.2 Dosbarthwyd y Papur Ymgynghori yn electronig i fwy na 500 o randdeiliaid, ac anfonwyd copiâu caled ar gais.

CYFARFODYDD Â RHANDDEILIAID

Cyfarfodydd unswydd i drafod y Papur Ymgynghori

- 3.3 Lanswyd y Papur Ymgynghori mewn digwyddiad yng Nghaerdydd, a gafodd ei gynnal gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol a'i noddi gan Francis Taylor Building (FTB) ym mis Tachwedd 2017, ac eto ym Mae Colwyn ym mis Chwefror 2018.¹ Anerchwyd pob un gan gynrychiolwyr y prif broffesiynau a sefydliadau sy'n gweithio yn y maes.
- 3.4 Trefnodd Cymorth Cynllunio Cymru a'r Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref ddiwyddiad ym Mhrifysgol Caerdydd ym mis Chwefror 2018, i roi cyhoeddusrwydd i'n cynigion, yn enwedig i grwpiau yn y trydydd sector.
- 3.5 Cawsom gyfarfodydd defnyddiol iawn hefyd ag uwch swyddogion cynllunio o'r rhan fwyaf o'r awdurdodau cynllunio, a drefnwyd drwy gymwynas tri grŵp rhanbarthol Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru yn yr Wyddgrug, Caerffili a Llandeilo.
- 3.6 A chyfarfuom ag aelodau o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig mewn cyfarfodydd yng Nghaerdydd a Chyffordd Llandudno.

Cyflwyniadau mewn cyfarfodydd a drefnwyd gan eraill

- 3.7 Cawsom wahoddiad hefyd i roi cyflwyniad ar y prosiect, ac ar ein cynigion, mewn digwyddiadau a drefnwyd gan gyrff amrywiol – digwyddiad o'r enw Sgyrsiau Rheoli Datblygu a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru; Cynhadledd Rhentu yn y Dyfodol Cymru, a drefnwyd gan Gymdeithas y Landlordiaid Preswyl; cyfarfod rheolaidd â'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol, yng Nghastell Ffwl-y-mwn, y Barri; a digwyddiad i gynghorau tref a chynghorau cymuned a drefnwyd gan Un Llais Cymru yn Llandrindod.

¹ Gohiriwyd y cyfarfod ym Mae Colwyn o fis Rhagfyr i fis Chwefror, oherwydd tywydd garw.

- 3.8 Gwnaethom hefyd roi cyflwyniadau yn nau Seminar Cyfraith Cynllunio Cyfreithiol Blyneddol FTB, Cynhadledd Cyfraith Cynllunio 39 Essex Chambers, Llundain, cyfarfod o Gymdeithas Cyfraith yr Amgylchedd y DU yng Nghaerdydd, a chyfarfod o Gyd-bwyllgor y Cymdeithasau Amwynder Cenedlaethol yn Llundain.
- 3.9 Roedd pob un o'r cyfarfodydd hyn yn agored i bawb, gan roi cyfle i ni gyflwyno'r prif gynigion yn y Papur Ymgynghori i ddetholiad eang o ddefnyddwyr y system gynllunio yng Nghymru.

Cyfarfodydd â rhanddeiliaid eraill

- 3.10 Yn drydydd, cyfarfuom â chynrychiolwyr o nifer o sefydliadau perthnasol – Pwyllgor Cynllunio a'r Amgylchedd Cymdeithas y Cyfreithwyr, Cymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru, Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru, Grŵp Trawsbleidiol y Cynulliad Cenedlaethol ar Dai, Cartrefi Cymunedol Cymru, Ffederasiwn yr Adeiladwyr Cartrefi, y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Cadw Coed, y Cyngor Adeiladau Eglwysig, a'r Adran Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.
- 3.11 Cafodd pob un o'r grwpiau hyn gyfle i ddsbarthu ein cynigion i'w haelodau, ac i baratoi ymatebion yn unol â hynny.

Y RHAI A YMATEBODD

- 3.12 Cawsom 165 o ymatebion, gan amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau – gweler Atodiad A am restr gyflawn.
- 3.13 Clywsom gan y rhan fwyaf o'r awdurdodau cynllunio yng Nghymru – awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol – ac amrywiol gyrff cynrychioliadol awdurdodau lleol (gan gynnwys Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru). Cawsom sylwadau gan 21 o gynghorau cymuned a thref hefyd, a chan amrywiaeth o gyrff cyhoeddus eraill. Rydym wedi cael nifer o gyfarfodydd â swyddogion Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Cadw). A chawsom sylwadau hynod ddefnyddiol gan yr Arolygiaeth Gynllunio.
- 3.14 Cawsom amrywiaeth o safbwyntiau gan ddatblygwyr, perchenogion tir, a chyrrff tai. A chawsom lawer o sylwadau gan sefydliadau yn y trydydd sector (gan gynnwys cyrrff treftadaeth cenedlaethol a lleol, grwpiau ffydd, sefydliadau sy'n ymwneud â choed, ac eraill) – yn bennaf mewn cysylltiad â'n cynigion ym Mhennod 13 (yr amgylchedd hanesyddol) a Phennod 15 (coed a choetiroedd).
- 3.15 A chawsom ymatebion gan amrywiaeth o gyrff proffesiynol (a oedd yn cynrychioli bargyfreithwyr, cyfreithwyr, penseiri, cynllunwyr, syrfewyr, peirianwyr, gweithwyr proffesiynol ym maes cadwraeth ac eraill), a chan weithwyr proffesiynol unigol ac ymatebwyr unigol eraill.

Crynodeb

- 3.16 Rydym wedi'n bodloni bod y cynigion dros dro yn ein Papur Ymgynghori wedi cael eu dwyn i sylw amrywiaeth eang o randdeiliaid.

NATUR YR YMATEBION A GAWSOM

- 3.17 Mewn ymateb i'r Papur Ymgynghori a ddsbarthwyd gennym, a'r amrywiol gyfarfodydd â grwpiau ac unigolion a nodir uchod, cawsom ddetholiad da o safbwyntiau.
- 3.18 Cyflwynodd rhai ymgynghoreion sylwadau cyffredinol ar yr ymarfer codeiddio yn ei gyfanrwydd. Ymatebodd rhai i bob cwestiwn, yn fanwl iawn mewn llawer o achosion. Ymatebodd rhai i ychydig o gwestiynau yn unig, a oedd yn achos pryder penodol; neu i un bennod.
- 3.19 Yn y Bennod ddilynol, rydym yn crynhoi'r ymatebion hynny a gawsom a oedd yn cynnwys sylwadau ar yr ymarfer codeiddio yn ei gyfanrwydd. Yn y penodau ar bynciau (5 i 18), rydym yn crynhoi'r prif ymatebion sy'n ymwneud â phob pwnc.
- 3.20 Ym mhob achos, nid ydym wedi crybwyll pob ymateb – gan fod nifer o ymgynghoreion wedi gwneud pwyntiau tebyg, nad yw'n syndod. Ac mewn rhai achosion, rydym wedi aralleirio'r sylwadau a wnaed gan ymgynghorai penodol. Ond rydym wedi ceisio adlewyrchu naws gyffredinol yr ymatebion yn eu cyfanrwydd.
- 3.21 Roedd rhai o'n hawgrymiadau, yn enwedig y rhai llai pwysig (er enghraifft, dileu cyfeiriadau at reolau amser rhyfel), ond hefyd y cynigion i gael gwared ar ddeddfwriaeth nas defnyddir, yn gyffredinol boblogaidd, gyda chefnogaeth unfrydol neu bron yn unfrydol gan y rhai a ymatebodd. Arweiniodd rhai at sylwadau a oedd wedi'u rhannu'n gyfartal o blaid ac yn erbyn; mewn ychydig o achosion, anghytunodd y mwyafrif o ymatebwyr. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion, at ei gilydd, yn gefnogol yn gyffredinol i'n cynigion.
- 3.22 Denodd nifer fach o'n cynigion dros dro (yn enwedig y rhai a oedd yn ymwneud â chaniatâd cynllunio amlinellol a'r rhai a oedd yn ymwneud ag uno cydsyniad adeilad rhestredig â chaniatâd cynllunio o bosibl) nifer fawr o ymatebion, yn bennaf gan y rhai â diddordeb arbenigol yn y pwnc dan sylw. Cymysg fu'r ymatebion, gyda sawl un yn mynegi gwrthwynebiad cryf. Rydym wedi ystyried pob un ohonynt yn ofalus, ac o ganlyniad nid ydym yn bwrw ymlaen â'n cynnig gwreiddiol i uno caniatâd cynllunio amlinellol a manwl (gweler **Pennod 8**). Ond rydym yn dal i gredu, at ei gilydd, y dylid uno cydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth â chaniatâd cynllunio. Trafodwn y dadleuon o blaid ac yn erbyn ym **Mhennod 13**.
- 3.23 Rydym yn pwysleisio nad cynnal refferendwm syml rydym wedi bod yn ei wneud, ond ceisio dod i gasgliad ynghylch beth yw'r ffurf fwyaf priodol ar y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r system gynllunio, yng ngoleuni'r amrywiol sylwadau a gawsom.

